

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU
18 MEDI 2023

Cofnodion Is-bwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd
Llun 18 Medi am 9.30am

Yn Bresennol:

Y Cynghorwyr: Rosetta Dolphin (Cadeirydd), Marion Bateman a Mared Eastwood

Swyddogion Cyngor Sir y Fflint:

Arweinydd y Tîm Trwyddedu (Gemma Potter) a Swyddog y Gwasanaethau
Democrataidd (Sharon Thomas)

Swyddog Cyfreithiol

Henry Skudra

Ymgeisydd

1. GWRANDAWIAD A PHENDERFYNIAD AR Y CAIS

Croesawodd y Cadeirydd yr Ymgeisydd a chyflwynodd Aelodau'r Is-
bwyllgor. Eglurodd y drefn ar gyfer y gwrandawriad, gan gynnwys sut y byddai'r
cais yn cael ei benderfynu.

2. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

**3. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 –
YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

PENDERFYNWYD

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol gan yr
ystyrir ei bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraffau 12
ac 13 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

4. CAIS AM DRWYDDED YRRU CERBYD HURIO PREIFAT/HACNI (AR Y CYD)

Cyflwynodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu yr adroddiad i ystyried a
phenderfynu ar gais am Drwydded Yrru Cerbyd Hurio Preifat/Hacni (ar y cyd).
Dyweddod hefyd bod yr Ymgeisydd, yn ôl y gofyn, wedi darparu manylion
ynghylch ei gyfnod prawf, a gafodd eu rhannu â'r Is-bwyllgor.

Pan oedd y Cadeirydd yn fodlon fod yr holl gwestiynau perthnasol wedi eu
gofyn, gofynnodd i'r ymgeisydd ac Arweinydd y Tîm Trwyddedu adael y cyfarfod
er mwyn galluogi'r panel i ddod i benderfyniad.

4.1 Penderfyniad ar y Cais

Gwahoddwyd Arweinydd y Tîm Trwyddedu a'r Ymgeisydd yn ôl, er mwyn ailgynnull y cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd fod Aelodau'r Is-bwyllgor wedi ystyried yr holl wybodaeth, gan gynnwys y manylion am yr euogfarnau, polisi'r Cyngor ar euogfarnau, y wybodaeth ysgrifenedig a ddarparwyd, yn ogystal â'r eglurhad a dderbyniwyd gan yr Ymgeisydd. Roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried euogfarnau blaenorol yr Ymgeisydd, eu natur a faint o amser a aeth heibio ers yr euogfarn am guro.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor nad oedd ganddynt unrhyw reswm da dros beidio â dilyn y canllawiau'n ymwneud â gadael i gyfnod o bum mlynedd fynd heibio yn dilyn euogfarn am drais. Dywedodd hefyd bod canllawiau'r Adran Drafnidiaeth yn nodi deng mlynedd.

Yn ogystal, er eu bod yn ystyried yn glinigol nad oedd yna unrhyw arwyddion o ddibyniaeth ar alcohol neu ddiwyfny yn yr archwiliad meddygol, nodwyd hefyd bod yr Ymgeisydd wedi dweud yn y lle cyntaf ei fod bron yn hollol sobr, ond bu i archwiliad meddygol diweddar ddangos ei fod yn yfed hyd at 12 uned o alcohol bob wythnos.

Dywedodd yr Ymgeisydd hefyd wrth Is-bwyllgor ei fod wedi derbyn rhagor o euogfarnau traffig ffordd. Roedd hyn yn destun pryder i'r Is-bwyllgor, oherwydd ei fod wedi troseddu dro ar ôl tro, er eu bod nhw'n fân droseddau, mewn perthynas â'r canllawiau perthnasol.

Nid oedd yr Is-bwyllgor yn fodlon, o ystyried pob posibilrwydd, fod yr Ymgeisydd yn unigolyn cymwys ac addas o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 i feddu ar Drwydded Yrru Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat. Cafwyd penderfyniad unfrydol i wrthod y cais.

4.2 Penderfyniad

Bod y cais yn cael ei wrthod, gan nad oedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod yr Ymgeisydd yn unigolyn cymwys ac addas i feddu ar Drwydded Yrru Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat o fewn Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

Ar ôl darllen penderfyniad yr Is-bwyllgor (fel yr uchod) a chyn cloi'r cyfarfod, dywedodd y Cadeirydd wrth yr Ymgeisydd fod ganddo'r hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad, ac y byddai copi ysgrifenedig o'r penderfyniad yn cael ei anfon ato.

(Dechreuodd y cyfarfod am 9.35am a daeth i ben am 10.50am)

.....
Y Cadeirydd